| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD :** | **24 MAI 2012** |
| **TEITL YR ADRODDIAD :** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2011/2012** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN :** | **PENNAETH GWASANAETH (ARCHWILIO) - RSM TENON** |
| **GWEITHREDU:** | **DIM** |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol ar gyfer 2011/2012.

## 2. CYMHARIAETH O WAITH A GYNLLUNIWYD AC A WNAED 2011/12

| **Categori Gweithio** | Diwrnodau a gynlluniwyd 2011/12 | Diwrnodau Gwirioneddol 2011/12 | % Amrywiant Gwirioneddol i Gynlluniwyd |
|---|---|---|---|
| Archwilio Rhaglenedig | 765 | 590 | 77% |
| Ymchwiliadau Arbennig | 75 | 106 | 141% |
| Gwaith ar gais y Swyddog 151 | 30 | 15 | 50% |
| Cyngor ar Reolau, Systemau a Rheoliadau | 20 | 7 | 35% |
| Gwaith dilyn i fynu | 20 | 12 | 60% |
| Gwaith Annisgwyl | 40 | 44 | 110% |
| **Cyfanswm Gwaith Archwilio** | **950** | **774** | **81%** |
| Gwyliau Statudol / Blynyddol / Arall | 188 | 164 | 87% |
| Salwch | 50 | 16 | 32% |
| Hyfforddiant | 72 | 44 | 61% |
| Gweinyddu Archwilio | 105 | 127 | 121% |
| Helpu a Chydweithredu gydag Archwilwyr Allanol | 5 | 0 | 0% |
| Rhyddhau Sieciau | 35 | 42 | 120% |
| Pwyllgorau Archwilio | 20 | 34 | 170% |
| Llefydd Gwag | 0 | 220 | 100% |
| Cydweithredu | 15 | 1.8 | 12% |
| **Cyfanswm Gwaith nad oedd yn Archwilio / Cynhyrchiol** | **490** | **649** | **132%** |
| **Cyfanswm Dyddiau** | **1440** | **1423** | **99%** |

2.1 Mae ffigyrau'r gwaith Archwilio yn is nag a osodwyd ar gyfer y cynllun ar 950 o ddyddiau. Y prif resymau am hyn yw swydd wag am y flwyddyn gyfan a nifer gynyddol o ddyddiau'n cael eu treulio ar ymchwiliadau a gweinyddu Archwilio. Mae cyfanswm y gwaith nad oedd yn waith Archwilio hefyd yn uwch na'r ffigwr a osodwyd yn y cynllun a hynny am yr un rhesymau. Roedd yr effaith negyddol gyda'r dyddiau y

codwyd tâl amdanynt gyda'r swydd wag yn cael ei wrthbwyso'n rhannol trwy ddefnyddio diwrnodiau gwaith annisgwyl i wneud i fyny'r 44 o ddiwrnodiau a gollwyd.

2.2 Mae'r alldro cyffredinol yn 81% o'r diwrnodiau y codwyd tâl amdanynt yn cael eu defnyddio yn erbyn targed a gynlluniwyd o 100%.

## 3. ALLBYNNAU A GYNHYRCHWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN

3.1 Mae cymharu'r diwrnodiau a gynlluniwyd ac a gyflawnwyd yn dangos yn fras sut y treuliwyd amser staff yn ystod y flwyddyn ond nid yw'n dangos faint o allbynnau a gynhyrchwyd (h.y. sawl archwiliad a wnaed). Mae'r tabl isod yn dangos cymhariaeth rhwng y nifer o archwiliadau a gynlluniwyd gyda'r nifer gwirioneddol o archwiliadau a wnaed. Fel yn unrhyw flwyddyn, yn 2011/12 bu'n rhaid diwygio'r cynllun archwilio i gymryd nifer o wahanol ffactorau i ystyriaeth trwy gydol y flwyddyn. Unwaith yn rhagor y flwyddyn hon, roedd y ffactorau'n ymwneud yn bennaf â gwaith ychwanegol oedd ei angen i gyfarfod â risgiau oedd yn dod i'r amlwg ac atgyfeiriadau.

**Dadansoddiad o Waith Archwilio a Gynlluniwyd / a Wnaed yn Ystod 2011/2012**

| Statws yr Adroddiad | Rhif Gwreiddiol a Gynlluniwyd | Adroddiadau a Gyhoedwyd | Gwaith ar y Gweill 31/3/12 |
|---|---|---|---|
| **2011-12** | | | |
| Terfynol | 60 | 52 | 0 |
| Drafft | 0 | 1 | 0 |
| Gwaith ar y gweill | 0 | 0 | 6 |
| **2010/11** | | | |
| Terfynol | 0 | 8 | 0 |
| **CYFANSWM** | **60** | **61** | **6** |

3.2 Rhyddhawyd 61 o Adroddiadau Archwilio Mewnol ffurfiol yn ystod 2011/2012 o'i gymharu â 52 y flwyddyn flaenorol. Mae'r cyfanswm, felly, yn welliant ar berfformiad 2010/11. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys 15 o Adroddiadau Terfynol a ryddhawyd yn 2011/12 nad oeddent wedi'u cynllunio'n wreiddiol ar gyfer y cyfnod hwn ond a oedd yn angenrheidiol i bwrpasau risg ac / neu gydymffurfiaeth neu o ganlyniad i waith ymchwiliol.

Roedd y 15 adolygiad ychwanegol yn rhannol yn cymryd lle'r 16 adolygiad yng Nghynllun Gweithredol 2011/12 nas dechreuwyd yn y cyfnod. O'r 16 hyn; fe ohiriwyd tri oherwydd i sicrwydd gael ei ddarparu gan ddarparwyr sicrwydd trydydd parti arall neu oherwydd y lefel o berthnasedd mewn perthynas â meysydd eraill o bryder archwilio; ac roedd gan ddwy system weithdrefnau newydd / yn datblygu yn cael eu cyflwyno'r flwyddyn hon. Cafodd yr 11 adolygiad oedd yn weddill eu gohirio oherwydd y llwyth gwaith ychwanegol yn y flwyddyn ac y mae'r cyfan o'r rhain wedi'u dwyn ymlaen i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2012-13. Gweler y manylion yn Atodiad A.

3.3 Yn gyfan gwbl, fe gwblhawyd 53 o adolygiadau yn 2011-12 yn erbyn targed o 60. Cafodd yr holl adolygiadau ariannol allweddol yn y cynllun eu cwblhau i'r cyfnod adroddiad terfynol erbyn 29 Chwefror 2012. Mae hyn yn cynrychioli perfformiad da gan y Gwasanaeth o ystyried bod y Tîm un swydd yn fyr am y cyfan o'r cyfnod.

3.4 Er bod cynlluniau i wneud gwaith mewn blynyddoedd unigol yn y cynlluniau strategol a'r cynlluniau blynyddol, mae yna beth gwaith unigol sy'n cario drosodd o un flwyddyn i'r llall yn arbennig yr archwiliadau mwy neu archwiliadau sy'n dechrau'n agos at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y ffaith bod un adroddiad drafft yn disgwyl ei chwblhau ar ddiwedd y cyfnod a thri adolygiad arall oedd yn parhau yn waith ar y gweill. Bydd yr adolygiadau hyn yn cael eu cwblhau yn chwarter cyntaf 2012/13.

## 4. DANGOSYDDION PERFFORMIAD

4.1 Bob blwyddyn bydd Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn cymryd rhan mewn meincnodi Cymru gyfan yn erbyn dangosyddion sy'n ymwneud â chost ac allbwn. Fe wneir y gwaith meincnodi hwn ym mis Mai / Mehefin ym mhob blwyddyn ac felly nid oedd y canlyniadau ar gyfer 2011/12 ar gael mewn pryd i'w cynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwn.

4.2 Pan gaiff y canlyniadau eu cyhoeddi byddant yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad cynnydd Archwilio Mewnol nesaf wedi hynny.

4.3 Byddwn yn adrodd yn ôl i bob Pwyllgor Archwilio am Berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn y targedau mewnol fel rhan o'r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol. Am y cyfnod o 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012 roedd y perfformiad yn erbyn y targedau mewnol fel a ganlyn:

| Mesur Perfformiad | Targed 2011/12 | Gwirioneddol wedi ei addasu ar gyfer y cyfnod* | Statws Targed |
|---|---|---|---|
| % cynlluniau archwilio 2011/12 a gwblhawyd yn y flwyddyn hyd at at adroddiad drafft (60 o adolygiadau yn y cynllun – 1 adroddiad drafft a 52 adroddiad terfynol o 2011-12). | 90% | 88% | ☹ |
| Canran y diwrnodiau y codir amdanynt yn y cynllun a ddefnyddiwyd (950) | 100% | 81% | ☹ |
| Lefelau boddhad cyffredinol y cwsmer yn seiliedig ar holiaduron. | 90% | 100% | ☺ |
| % o'r holl argymhellion archwilio mewnol Uchel a Chanolig a weithredwyd – o 01-04-10 fel yr oedd ar 19-04-12. | 80% | 67% | ☹ |
| Nifer yr adolygiadau cynlluniedig o Feysydd Risg Corfforaethol a nodwyd. | 9 | 9 | ☺ |
| Cynnal dau sesiwn hyfforddi ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn y cyfnod | 2 | 0* Cynlluniwyd ar gyfer Ebrill 2012 | 😐 |
| Cwblhau adolygiad o Brosesau Gweithredu Cynlluniau Gwaith Darparwyr Sicrwydd Trydydd Parti Allanol | 1 | 1 | ☺ |
| Cwblhau adolygiad o ran gwirio data mesur perfformiad yn y Cyngor | 1 | 2 & 1 ar y gweill | ☺ |
| Gostyngiad yn nifer y dyddiau archwilio y codir amdanynt yn sgil cydweithredu yn y cyfnod | 10 | 0 | 😐 |
| Nifer yr adolygiadau cydweithredol / adolygiadau gan ddefnyddio papurau gweithio cydweithredol a gynhaliwyd yn y cyfnod. | 3 | 0 | 😐 |

4.4 Fe welir eglurhad am y ganran o ddyddiau y codwyd tâl amdanynt oedd yn is na'r targed a chanran o alldro'r cynllun ym mharagraff 2.1 a 3.3 yr adroddiad hwn.

4.5 Mae canran yr argymhellion Uchel a Chanolog a weithredwyd yn is na'r targed ar 67%. Bydd Archwilio Mewnol yn gweithio gyda Gwasanaethau yn 2012-13 i ddiweddaru'r system 4Action gyda'r data gweithredu diweddaraf fydd, fe obeithir, yn dangos gwelliant yn erbyn targed.

4.6 Pan luniwyd y Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol roedd rhaglen gydweithredu yn flaenoriaeth allweddol ac roedd disgwyl y byddai'n symud ymlaen i amserlen fwy dwys nag a fu'r achos mewn gwirionedd. Fe osodwyd targedau, felly, ar gyfer cydweithredu na fu'n bosibl i'w cyflawni yn ymarferol. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn parhau i gymryd rhan ym Mhartneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru a'r nod yw gwneud y mwyaf o'r manteision y gellir eu cael o gyfranogi.

## 5. CASGLIADAU CYFFREDINOL AR Y MEYSYDD A ARCHWILIWYD

5.1 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r farn CAG cyffredinol a roddwyd i'r holl adolygiadau lle rhoddwyd barn yn 2011-12.

5.2 Mae tabl 1 yn dangos yr adolygiadau oedd yn seiliedig ar system a wnaed ac y rhoddwyd barn ar eu cyfer o naill ai Gwyrdd, Gwyrdd Ambr, Coch/Ambr neu Goch. Mae'r diffiniad o bob lefel sicrwydd i'w weld isod;

| Graddfa | Beth yw ystyr y Barn Graddfa CAGG |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. |
| **Gwyrdd Ambr** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi canfod rhai pethau fydd, oni chânt sylw, yn ychwanegu at y tebygrwydd y bydd y risg yn troi'n ddigwyddiad. |
| **Coch Ambr** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas, yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Angen cymryd camau i reoli'r risg. |
| **Coch** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, ni all yr Awdurdod gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas nac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Rhaid cymryd camau i reoli'r risg. |

**Tabl 1**

| Maes Archwilio | Nifer o Archwiliadau | GWYRDD | GWYRDD AMBR | COCH AMBR | COCH | Graddfa D/B | Gradd Gyfartaleddog Gyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adolygiadau System | 28 | 14 | 4 | 0 | 3 | 7 | GWYRDD |
| Adolygiadau Sefydliad | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | GWYRDD AMBR |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adolygiadau Ysgol | 8 | 6 | 2 | 0 | 0 | 0 | GWYRDD |
| Adolygiadau heb eu cynllunio | 4 | 0 | 1 | 0 | 0 | 3 | d/b |
| Ymchwiliadau | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | d/b |
| **Cyfansymiau** | **52** | **21** | **8** | **0** | **3** | **20** | |

5.4 Mae'r graddau cyffredinol yn seiliedig ar yr holl waith a wnaed fel a ganlyn:

- Cyfartaledd o 'Wyrdd' ar gyfer yr adolygiadau system am 2011/12 yn gyson gyda'r radd gyffredinol yn 2010-11; a

- Cyfartaledd o 'Wyrdd' ar gyfer adolygiadau ysgolion am 2011/12 sydd eto'n gyson gyda'r radd gyffredinol yn 2010-11.

5.5 Mae'r farn Archwilio Gwyrdd roddwyd i'r Archwiliadau systemau ac ysgolion yn cyfateb i risg fach iawn i isel i'r Awdurdod. Mae hyn yn seiliedig ar sgôp gwaith a wnaed ac i'r camau a argymhellwyd i reolwyr gael eu gweithredu a bod y systemau hynny'n parhau i weithredu fel y'u bwriadwyd.

5.6 Mae'r Rheolwr Archwilio, fodd bynnag yn ymwybodol o feysydd lle y byddai gwendidau sylweddol mewn rheolaeth yn rhwystro'r Cyngor rhag gallu dibynnu'n rhesymol ar y systemau rheoli mewnol yng nghyswllt y systemau a adolygwyd yn ystod y flwyddyn. Y meysydd hyn oedd:

- Parhad Busnes - fe wnaed cynnydd mewn perthynas â threfniadau Parhad Busnes yn 2011-12. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i fod heb Bolisi Adfer Ôl-Drychineb TGCh ffurfiol ac roedd gwaith yn parhau i fod ar y gweill ar ddiwedd y cyfnod i derfynu trefniadau Parhad Busnes y Cyngor. Fe gynhaliwyd gweithdy Parhad Busnes ac fe'i defnyddiwyd i nodi bylchau yn y prosesau ar gyfer mynd i'r afael â'r rheini yn 2012-13.

- Rheoli Risg - Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd gyda datblygu ei Gofrestr Risg Gorfforaethol ac mae'r drafftiau cychwynnol wedi'u cwblhau. Mae'r gwaith yn parhau gyda gweithredu'r Fframwaith Rheoli Risg yn cynnwys adrodd am y Gofrestr Risg yn rheolaidd i'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol; y Pwyllgor Archwilio ac i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Amserlennwyd hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini i'w cyfarwyddo hwy â'r Fframwaith Rheoli Risg a'r ffyrdd o adrodd yn ôl fydd yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor.

  Fodd bynnag, ni chyflwynwyd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ffurfiol i'w hystyried i'r Pwyllgorau Archwilio Sgriwtini yn 2011-12.

- Llywodraethu – Roedd y Cynllun Archwilio Mewnol yn cynnwys adolygiadau'n ymwneud â Llywodraethu ac fe geir sicrwydd hefyd o adroddiadau sicrwydd trydydd parti.

  Fe nodwyd materion yn wneud â pholisi a gweithdrefnau yn 2011-12. Fe ganfu nifer o adroddiadau Archwilio Mewnol yn y cyfnod oedd yn ymwneud â pholisïau corfforaethol allweddol bod cydymffurfiaeth yn anghyson ar draws y Cyngor. Fe ganfu adolygiadau nad oedd y cyfrifoldeb am weithredu, monitro a darparu

sicrwydd corfforaethol ar gydymffurfio gyda pholisïau corfforaethol allweddol wedi'i ddiffinio'n glir.

Fe ganfu adolygiad hefyd mai defnydd cyfyngedig a fu o system y Cyngor ar gyfer arwyddo polisïau i ffwrdd yn electronig gyda hynny'n cofnodi bod defnyddwyr wedi darllen a deall y polisïau a'u bod yn cytuno i lynu wrthynt. Heb gofnod o'r fath o arwyddo i ffwrdd y mae'n fwy anodd dangos bod y polisïau wedi cael eu rhaeadru'n ddigonol i staff perthnasol.

Fe luniwyd adroddiad ynglŷn â'r materion hyn ar gyfer y Prif Weithredwr yn 2011-12 a bydd cynnydd gyda gweithredu ar argymhellion yn cael ei ddilyn i fyny yn 2012-13.

Mae polisi a gweithdrefn a chydymffurfio gyda hwy yn gydran allweddol o fframwaith Llywodraethu'r Cyngor. Mae methiant i wneud yn siwr bod staff yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau o'r fath yn cynyddu. Ystyrir bod y rhain yn faterion pwysig i'r Cyngor ac sydd angen gwaith parhaol i fynd i'r afael â hwy yn 2012-13.

5.7 Dylid nodi na all unrhyw system o reolau mewnol ond darparu sicrwydd rhesymol, ond nid absoliwt yn erbyn camddatganiadau pwysig neu golled.

Ni wnaeth y gwaith archwilio a wnaed ac a gwblhawyd nodi unrhyw feysydd o bryder sy'n cael eu hystyried yn rhai arwyddocaol neu yn gritigol o safbwynt busnes y Cyngor yn gyffredinol y tu hwnt i'r rhai a nodwyd yn 5.6 uchod.

## 6. DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

6.1 Bydd canlyniad yr holl adroddiadau Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio trwy adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol chwarterol y Rheolwr Archwilio. Adroddir ar unrhyw adolygiad system fydd yn derbyn barn sicrwydd Coch mewn manylder i'r Pwyllgor Archwilio. Cyflwynwyd tri adroddiad o'r fath i'r Pwyllgor Archwilio yn 2011-12.

6.2 Yn ychwanegol i'r eitemau yn 5.6 uchod, roedd yna, yn 2011-12, allbynnau'n ymwneud â Rheoli Asbestos, trefniadau Rheoli Fflyd a Diogelu - Recriwtio sydd wedi adlewyrchu'n ddrwg ar farn y fframwaith rheoli mewnol a ddatganwyd yn y Datganiad Rheolaeth Fewnol.

**RHEOLWR ARCHWILIO – RSM TENON**
**24 MAI 2012**

**Perfformiad yn erbyn Cynllun 2011/12** **Atodiad A**

| Maes Archwilio | Statws ar 31-03-12 | Sylwadau | BARN CAG |
|---|---|---|---|

| Corfforaethol | Statws | Sylwadau | Barn CAG |
|---|---|---|---|
| Rheoli Risg – Datganiad Sefyllfa | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | YMGYNGHOROL |
| Tracio Argymhellion – AM – Adolygiad Dilysu Hunanasesiadau | YN MYND RHAGDDO | Wedi'i wneud fel rhan o'r adolygiad nesaf o'r maes hwnnw | D/B |
| Tracio Argymhellion – nid rhai AM | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | YMGYNGHOROL |
| Gweithredu Trefniadau Rheoli Asedau a Chywirdeb y Data-bas | YN MYND RHAGDDO | Cwblhawyd a chyhoeddwyd Ebrill 2012 | D/B |
| Benthyciadau Car | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD |
| Asesiadau Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth / Asesiadau Effaith ar Breifatrwydd | Wedi'i gario drosodd | Wedi'i gario drosodd i 2012-13 | D/B |
| Diogelwch Cymunedol | TERFYNOL | Sgôp yn ymwneud â chyfeirio ac adolygu'r system. | YMGYNGHOROL |
| Fframwaith Diogelu | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | COCH |

| Polisi | | | |
|---|---|---|---|
| Adolygiad Iechyd Corfforaethol gan gynnwys Salwch a Chwynion | Wedi'i gario drosodd | Wedi'i gario drosodd i 2012-13 | D/B |
| Rheoli Perfformiad – Cyswllt ag Amcanion Corfforaethol – Dilysu Perfformiad yr Adroddwyd arno | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd – Cytundebau Canlyniadau Gwasanaethau Cymdeithasol | YMGYNGHOROL |
| | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd – Cytundebau Canlyniadau Gwasanaethau Hamdden | YMGYNGHOROL |

| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Tai** | | | |
| Rheoli Asbestos – Tai Cyngor | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | COCH |
| Rheoli Asbestos – G Purchase | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD |
| Rheoli Asbestos - Eiddo | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | COCH |
| Rhenti Tai | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD |
| Digartrefedd | Wedi'i gario drosodd | Wedi'i gario drosodd i 2012-13 | D/B |

| Gwasanaethau Cymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|
| Pryd ar Glud | WEDI'I GARIO DROSODD | Wedi'i gario drosodd i 2012-13 | D/B |
| Taliadau Uniongyrchol i Gleientiaid | WEDI'I GARIO DROSODD | Wedi'i gario drosodd i 2012-13 | D/B |
| Cartref Henoed Plas Crigyll | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD AMBR |
| Canolfan Dydd Hafan | | Cwblhawyd a chyhoeddwyd fel rhan o adolygiad Plas Crigyll uchod | |

| Cyllid | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Cyllid** | | | |
| Casglu Arian | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD |
| Dyledwyr Amrywiol | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD |
| Taliadau Credydwyr | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD |
| Ledjer Ariannol a Chymodi Banc | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD |
| Budd-daliadau Tai | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD AMBR |
| Rheoli Trysorlys | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Dreth Gyngor | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD |
| Y Gyflogres a Goramser | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD |
| Pennu'r Gyllideb a'i Monitro | WEDI'I GARIO DROSODD | Wedi'i gario drosodd i 2012-13 | D/B |
| Cyfrifon Imprest a Chymodi | Gohiriwyd | Penderfyniad i ohirio oherwydd lefel y risg / perthnasedd | D/B |
| Gweithdrefnau Pwrcasu, Cydymffurfiaeth ac E-dendro, Cofrestr Contractwyr | WEDI'I GARIO DROSODD | Wedi'i gario drosodd i 2012-13 | D/B |
| | | | |
| **TGCh** | | | |
| TGCh – Adfer yn dilyn Trychineb a Pharhad Busnes – Dilyn-i-fyny | WEDI'I GARIO DROSODD | Wedi'i gario drosodd i 2012-13 | D/B |
| Diogelwch Data – gan gynnwys Government Connect – Codi argymhellion o'r Adolygiad Llywodraethu Gwybodaeth | Gohiriwyd | Byddai gwaith SAC a PWC yn ddyblygu eleni – bydd yn cael ei ystyried ar gyfer 2012-13 wrth benderfynu ar waith asiantaeth arall yn y maes hwn | D/B |
| | | | |
| **Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol** | | | |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | |
| Ffioedd Meysydd Parcio a Rhybuddion Tâl Ychwanegol – Cydweithredol | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD |
| Rhenti Unedau Diwydiannol | YN MYND RHAGDDO | I'w gyhoeddi yn ystod chwarter cyntaf 2012-13 | D/B |
| Cludiant Cyhoeddus | WEDI'I GARIO DROSODD | Wedi'i gario drosodd i 2012-13 | D/B |
| Cynnal a Chadw Tiroedd | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD AMBER |
| | | | |
| **Gwasanaethau Cynllunio** | | | |
| Cynllun Grant Eiddo a'r Amgylchedd (PEG) | WEDI'I GARIO DROSODD | Wedi'i gario drosodd i 2012-13 – wedi cychwyn eleni a dyrannu ond rhywfaint o grantiau. | D/B |
| | | | |
| **Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes** | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | |
| Oriel | YN MYND RHAGDDO | I'w gyhoeddi yn ystod chwarter cyntaf 2012-13 | D/B |
| Archifau – Systemau Newydd | WEDI'I GARIO DROSODD | Gwaith yn parhau i fynd yn ei flaen i weithredu hyn – Wedi'i gario drosodd i 2012-13 | D/B |
| | | | |
| **Hamdden a'r Gymuned** | | | |
| Canolfan Hamdden Plas Arthur | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD |
| | | | |
| **Addysg** | | | |
| Ysgol gynradd 1 | TERFYNOL | Ysgol gynradd 1 | GWYRDD AMBR |
| Ysgol gynradd 2 | TERFYNOL | Ysgol gynradd 2 | GWYRDD |
| Ysgol gynradd 3 | TERFYNOL | Ysgol gynradd 3 | GWYRDD AMBR |
| Ysgol gynradd 4 | TERFYNOL | Ysgol gynradd 4 | GWYRDD |
| Ysgol gynradd 5 | TERFYNOL | Ysgol gynradd 5 | GWYRDD |
| Ysgol gynradd 6 | TERFYNOL | Ysgol gynradd 6 | GWYRDD |
| Ysgol gynradd 7 | DRAFFT | Ysgol gynradd 7 | D/B |
| Ysgol gynradd 8 | | | |
| Ysgol gynradd 9 | | | |
| Ysgol gynradd 10 | | | |
| Ysgol gynradd 11 | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol – Dilyn i fyny ( D neu E yn 10/11) | Gohiriwyd | Wedi cytuno gydag Addysg i gynnal ymarfer dilyn-i-fyny ar argymhellion ysgolion yn 2012-13 | D/B |
| Ysgol uwchradd 1 | TERFYNOL | Ysgol uwchradd 1 | GWYRDD |
| Ysgol uwchradd 2 | TERFYNOL | Ysgol uwchradd 2 | GWYRDD |
| Cynnal- Cydweithio gyda Gwynedd | TERFYNOL | O Gynllun 2010-11 | YMGYNGHOROL |
| Grant Ysgol Gymunedol LlC | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD AMBER |
| Brecwast am ddim - LlC | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD |
| Adolygiad Thematig Ysgolion – Cydweithredol – Arferion Gorau | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd – o gynllun 2010-11 | YMGYNGHOROL |
| Cinio Ysgol am Ddim | WEDI'I GARIO DROSODD | Wedi'i gario drosodd i 2012-13 | D/B |
| Incwm Cludiant Ysgol | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD |
| Grantiau Dillad LlC | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | GWYRDD AMBER |
| Ffioedd Allsirol | WEDI'I GARIO DROSODD | Wedi'i gario drosodd i 2012-13 | D/B |

| Maes Archwilio | Statws ar 31-03-12 | Sylwadau | BARN CAG |
|---|---|---|---|

| Adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2011-12 a oedd ddim yn rhan o'r cynllun | Statws | Sylwadau | Barn CAG |
|---|---|---|---|
| Rheoli'r Fflyd – dilyn-i-fyny | TERFYNOL | Dilyn-i-fyny yn sgil yr adroddiad COCH a gyhoeddwyd yn 2010-11 | Cynnydd Digonol |
| Budd-Dal Tai – Gwrth-dwyll | TERFYNOL | O Gynllun 2010-11 | YMGYNGHOROL |
| Adolygiad Thematig Polisi | TERFYNOL | Mewn ymateb i dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda pholisïau corfforaethol allweddol | YMGYNGHOROL |
| Trefniadau ar gyfer Ffonau Symudol | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd – cais gan y Swyddog Adran 151 Dros Dro | GWYRDD AMBR |

| Adroddiadau Ymchwilio / Cyfeirio a gyhoeddwyd yn 2011-12 | Statws | Sylwadau | Barn CAG |
|---|---|---|---|
| Arian ar Goll - 1711 | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | D/B |
| Credydwyr TLlU - 1720 | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | D/B |
| Ceisiadau anghywir - 1715 | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | D/B |
| Costau Teithio- 1716 | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | D/B |
| Cynhaliaeth - 1746 | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | D/B |
| Cyfeiriad - Compost - 1737 | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | D/B |
| Cyfeiriad – Gwastraff Hylifol - 1738 | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | D/B |
| Cyfeiriad - Plas Mona - 1798 | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | D/B |
| Grant Trwsio – Bay - 1730 | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | D/B |
| Datgelu - 1800 | TERFYNOL | Cwblhawyd a chyhoeddwyd | D/B |
| Cinio Ysgol - 1797 | YN MYND RHAGDDO | YN MYND RHAGDDO | D/B |
| Contract Plymio - 1791 | YN MYND RHAGDDO | YN MYND RHAGDDO | D/B |
| Benthyciad Car - 1805 | YN MYND RHAGDDO | YN MYND RHAGDDO | D/B |
| Contract Trydan - 1775 | YN MYND RHAGDDO | I'w gyhoeddi Ebrill 2012 | D/B |